Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

**Adroddiad: CLA(4)-13-13 : 13 Mai 2013**

Mae'r Pwyllgor yn cyflwyno'r adroddiad a ganlyn i'r Cynulliad:

## 1. Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Negyddol

**CLA262 - Gorchymyn y Dreth Gyngor (Diystyriadau Disgownt) (Diwygio Rhif 2) (Cymru) 2013**
Y weithdrefn negyddol.
Fe'i gwnaed ar: 1 Mai 2013.
Fe'i gosodwyd ar: 2 Mai 2013.
Yn dod i rym ar: 24 Mai 2013

**CLA263 - Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Darpariaethau Ychwanegol ar gyfer Diystyriadau Disgownt) (Diwygio Rhif 2) (Cymru) 2013**
Y weithdrefn negyddol.
Fe'u gwnaed ar: 1 Mai 2013.
Fe'u gosodwyd ar: 2 Mai 2013.
Yn dod i rym ar: 24 Mai 2013

Nododd y Pwyllgor yr offerynnau ac roedd yn fodlon â hwy.

## 2. Offerynnau sy’n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

Offerynnau’r Weithdrefn Penderfyniad Negyddol

**CLA261 - Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyd-bwyllgorau Trosolwg a Chraffu) (Cymru) 2013**
Y weithdrefn negyddol.
Fe’u gwnaed ar: 30 Ebrill 2013.
Fe’u gosodwyd ar: 2 Mai 2013.
Yn dod i rym ar: 24 Mai 2013

Cytunodd y Pwyllgor ar yr adroddiad ar gyfer y rheoliadau hyn (gweler Atodiad 1 isod).

## 3. Offerynnau sy’n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

Penderfyniad negyddol.

**CLA260 - Cod Trefniadaeth Ysgolion 2013**
Y weithdrefn negyddol.
Fe’u gosodwyd ar: 29 Ebrill 2013.
Dyddiad cyhoeddi: drwy orchymyn Gweinidogion Cymru.

Nododd y Pwyllgor y Cod a nododd y byddai gan y pwyllgor pwnc a fu'n trafod y Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) ddiddordeb yn y Cod.

Cytunodd y Pwyllgor hefyd y byddai'n ystyried y broses ar gyfer llunio'r math hwn o is-ddeddfwriaeth yn y dyfodol, gan nodi y byddai'r pwyllgor polisi perthnasol yn gyfrifol am graffu ar y cynnwys, petai'n dymuno gwneud hynny.

## 4. Cynnig ar gyfer Rheoliad Senedd Ewrop a’r Cyngor Ewropeaidd ar fesurau i leihau costau sefydlu rhwydweithiau cyfathrebu electronig cyflym (COM(2013)147)

Nododd y Pwyllgor fod barn resymegol wedi cael ei roi gan y pwyllgor craffu ar faterion Ewropeaidd yn Nhŷ'r Cyffredin, ac y bydd y ddadl ar y cynnig yn cael ei gynnal yn fuan. Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y pwyllgorau craffu ar faterion Ewropeaidd yn Nhŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi, yn ogystal â'r pedwar ASE o Gymru, yn adleisio'r safbwyntiau yn y farn resymegol.

## 5.. Papur i'w nodi

Nododd y Pwyllgor y llythyr oddi wrth y Cadeirydd i Dr Kay Swinburne ASE, a'r ymateb dilynol mewn perthynas â'r Cynnig ar gyfer Cyfarwyddeb o Senedd Ewrop a'r Cyngor ar sefydlu seilwaith tanwydd amgen (COM(2013)0018)

*Yn unol â Rheol Sefydlog 17.42(vi), cytunodd y Pwyllgor i wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod er mwyn iddo allu trafod ei adroddiad drafft ar y Bil Teithio Llesol (Cymru).*

Bydd trawsgrifiad o gyfarfod y Pwyllgor ar gael ar ei wefan yn:

**Simon Thomas AC**
Cadeirydd dros dro y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**16 Mai 2013**

**Atodiad 1**

**CLA261 - Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyd-bwyllgorau Trosolwg a Chraffu) (Cymru) 2013**

**Gweithdrefn: Negyddol**

Mae Rhan 6 (adrannau 58 i 80) o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ("y Mesur") yn gwneud darpariaeth ynghylch pwyllgorau trosolwg a chraffu awdurdodau lleol (cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol) yng Nghymru.
Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n cael eu gwneud o dan adrannau 58 a 172(6) o'r Mesur, yn caniatáu dau neu fwy o awdurdodau lleol i benodi cydbwyllgor trosolwg a chraffu i wneud adroddiadau neu argymhellion i unrhyw un o'r awdurdodau neu eu swyddogion gweithredol am faterion sy'n effeithio ar eu hardaloedd.

**Materion craffu: technegol**

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

1. Ceir tri chroesgyfeiriad anghywir yn y Rheoliadau –

(a) dylai rheoliad 13(4) gyfeirio at reoliad 12(3), ac nid 12(4);
(b) dylai rheoliad 15(1)(a) gyfeirio at reoliad 13, ac nid 12; a
(c) dylai rheoliad 15(1)(b) gyfeirio at reoliad 14, ac nid 13.

Mae'n ymddangos bod hyn wedi cael ei achosi gan broblemau technegol gyda thracio newidiadau. Mae'n amlwg beth ddylai'r cyfeiriadau cywir fod, ac felly mae'n briodol i'w cywiro pan gaiff y Rheoliadau eu cyhoeddi.

[Rheol Sefydlog 21.2(vi) – gwaith drafftio diffygiol.]

**Rhinweddau: craffu**

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.